PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

CELFYDDYDAU | DYNIAETHAU | BUSNES | Y GYFRAITH

# FFAIR GYRFAOEDD A CHYFLOGADWYEDD

ARTS | HUMANITIES | BUSINESS | LAW

# CAREERS & EMPLOYABILITY FAIR

LLYFRYN CYFLOGWYR SY'N ARDDANGOS 2022

EXHIBITING EMPLOYERS BOOKLET 2022



# CROESO WELCOME

**Croeso i'r Ffair Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd. Dewch i gwrdd â recriwtwyr lleol a chenedlaethol yn cynrychioli amrywiaeth eang o lwybrau gyrfa, yn cynnwys y Celfyddydau, Dyniaethau, Diwydiannau Creadigol, y Gyfraith, Cyfrifeg, Bancio, Busnes, Marchnata a llawr o feysydd eraill.**

**Welcome to the Careers and Employability Fair. Meet local and national recruiters representing a wide range of career paths, including the Arts, Humanities, Creative Industries, Accounting, Banking, Business, Law, Marketing and many other fields.**

# CYFLOGWYR SY'N ARDDANGOS EXHIBITING EMPLOYERS


| | |
|---|---|
| Adferiad Recovery | 4 |
| HSBC | 5 |
| Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council | 6 |
| Academi Gyllid GIG Cymru / NHS Wales Finance Academy | 7 |
| Undeb Myfyrwyr Bangor / Bangor Students Union | 8 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol / National Trust | 9 |
| Age Cymru Gwynedd a Môn | 10 |
| ICAEW | 11 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy | 12 |
| Victim Support North Wales / Gogledd Cymru | 13 |
| Health Education and Improvement Wales (HEIW) | 14 |
| Banc Datblygu Cymru / Development Bank of Wales | 15 |
| Allington Hughes Law | 16 |
| Anheddau Cyf. | 17 |
| HWB Menter / Enterprise HUB | 18 |
| Amgueddfa Lechi Cymru / National Slate Museum | 19 |
| Campws Byw Bangor / Campus Life | 20 |
| Birkdale Collective | 21 |
| Pennant Flower Chartered Surveyors | 22 |
| Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr / Carers Outreach Service | 23 |
| AIRBUS | 24 |
| Bookbane | 25 |
| Quioptiq | 26 |
| B-Enterprising | 27 |
| Gwasanaeth Cyflogadwyedd / Employability Service | 28 |
| Archwilio Cymru / Audit Wales | 29 |
| Excell Supply | 30 |
| BBC | 31 |
| Guthrie Jones & Jones LLP | 32 |
| Linenhall Chambers | 33 |
| CCUSA | 34 |
| Ensemble Cymru | 35 |
| Heddlu Gogledd Cymru / North Wales Police | 36 |
| Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin (DCGO) | 37 |
| CaBan Bangor | 38 |
| Supertemps | 39 |
| Gaming Laboratories International | 40 |
| Zip World | 41 |
| M-SParc | 42 |
| 2 Sisters Food Group | 43 |
| Gwasanaeth Erlyn y Goron / Crown Prosecution Service | 44 |
| Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council | 45 |
| Cynogr ar bopeth Ynys Môn / Citizens Advice Anglesey | 46 |

# ADFERIAD RECOVERY

Mae Adferiad Recovery yn darparu ymateb newydd, hyblyg a chydlynol i'r amgylchiadau eithriadol a wynebir gan bobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl ar yr un pryd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a materion cysylltiedig.

Gall gwirfoddoli fod yn ychwanegiad gwerthfawr iawn at CV rhywun. Gall wella eich proffil personol trwy ddangos tystiolaeth o ymrwymiad ac awydd i weithio. Gellir ei ddefnyddio fel profiad gwaith cyfredol a gallwch gofnodi unrhyw hyfforddiant a gewch. Gall bod yn wirfoddolwr gynnig cyfle i ddysgu sgiliau newydd a datblygu hyder drwy weithio ochr yn ochr â gwirfoddolwyr eraill, staff cyflogedig a defnyddwyr gwasanaeth.

Adferiad Recovery delivers a new, flexible and coordinated response to the exceptional circumstances faced by people with co-occurring mental health and substance misuse conditions and related issues.

Volunteering can be a real asset to a CV. It can enhance your personal profile by evidencing a commitment and desire to work. It can be used as current work experience and training can be recorded. Being a volunteer can offer a chance to learn new skills and develop confidence by working alongside other volunteers, paid staff and service users.



# HSBC

HSBC Holdings yw banc mwyaf Ewrop a sefydlwyd yn 1865. Mae HSBC Bank UK, sy'n is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr HSBC Holdings, yn cyflogi 220,000 o bobl ledled y byd.

Gyda'r fath bresenoldeb byd-eang gall y banc fod yn bartner byd-eang gwirioneddol i gwsmeriaid a chydweithwyr fel ei gilydd.

Mae Banc HSBC UK yn rhoi cyfle unigryw i raddedigion ymuno â banc mwyaf blaenllaw Ewrop ac mae cyfleoedd amrywiol ar draws nifer o swyddogaethau – o Fancio Manwerthu i Farchnadoedd Byd-eang.

HSBC Holdings is Europe's biggest bank having been founded in 1865. Employing 220,000 globally, HSBC Bank UK is a wholly owned subsidiary of HSBC Holdings.

With a global presence this allows the bank to be a truly global partner for customers and colleagues alike.

With various opportunities across numerous functions – from Retail Banking to Global Markets, HSBC Bank UK provides graduates a unique opportunity to join Europe's Leading Bank.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
# ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mae gweithio i Gyngor Sir Ynys Môn yn ymwneud â gwella bywydau'r bobl sy'n byw a gweithio ar yr Ynys.

Er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau mae arnom angen gweithwyr sy'n uchelgeisiol, sy'n cymryd balchder yn eu gwaith, sy'n broffesiynol ac sydd bob amser yn darparu'r safonau uchaf posibl.

At Isle of Anglesey County Council we are committed to making life better for the people who live and work on the Island.

In order to achieve our priorities we need employees who are ambitious, take pride in their work, are innovative, professional and deliver to the highest standards.



# ACADEMI GYLLID GIG CYMRU
# NHS WALES FINANCE ACADEMY

Cydweithrediad gwirfoddol rhwng Cyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru yw Academi Cyllid GIG Cymru a'i huchelgais yw datblygu swyddogaeth cyllid o fewn y GIG sydd "yn gweddu orau i Gymru ond yn sydd yn cymharu'n dda gyda'r gorau yn unrhyw le".

Ethos yr Academi Gyllid yw bod pob aelod o staff sy'n gweithio yn y maes cyllid o fewn GIG Cymru yn "aelod" o'r Academi ac yn gwneud cyfraniad hanfodol at wella'r swyddogaeth gyllid. Rydym yn cynnal ystod o fentrau i ddatblygu arweinyddiaeth ar draws holl sbectrwm y gymuned gyllid ac rydym yn credu'n gryf bod arweinyddiaeth bersonol yn berthnasol ar bob lefel.

The NHS Wales Finance Academy is a voluntary collaboration of every NHS Wales Finance Director whose collective ambition is to develop an NHS Finance function that is "best suited to Wales but comparable with the best anywhere".

The ethos of the Finance Academy is that every member of staff working in the NHS Wales Finance is a "member" of the Academy and plays a vital contribution to improvement of the finance function. We have a range of activities to support the development of leadership across the spectrum of the finance community with the strong messaging that personal leadership applies at all levels.

# UNDEB MYFYRWYR BANGOR
# BANGOR STUDENTS UNION

Mae gan Undeb Bangor, undeb myfyrwyr y brifysgol, dros 30 o wahanol brojectau gwirfoddoli dan arweiniad myfyrwyr y gall myfyrwyr gymryd rhan ynddynt yn rheolaidd neu unwaith yn unig, boed hynny er mwyn ennill neu ddatblygu sgiliau newydd, cyfarfod â phobl newydd, ymgysylltu â'r gymuned leol neu ennill profiad sy'n berthnasol i'w maes astudio.

Mae ein harlwy anhygoel yn cynnwys projectau sy'n cwmpasu ystod eang o feysydd a diddordebau, gan gynnwys projectau amgylcheddol, gweithgareddau codi arian ac ymgyrchu, projectau cymunedol ac iechyd meddwl, yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio gydag aelodau ifanc ac oedrannus o'n cymuned. Mae yna rywbeth at ddant pawb!

Undeb Bangor, Bangor Students' Union, has over 30 different student-led volunteering projects which students can get involved with on a regular or one-off basis, whether that be to gain or develop new skills, meet new people, engage with the local community or acquire experience relevant to their study area.

Our incredible offer includes projects that cover a broad range of areas and interests, including environmental projects, fundraising and campaigning activities, community-based and mental health projects, in addition to those that work with youth and elderly members of our community. There is something for everyone!



# YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL
# NATIONAL TRUST

Yn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol mae rôl wirfoddoli werth chweil at ddant pawb wrth i chi helpu un o elusennau cadwraeth mwyaf y Deyrnas Unedig. Bydd gwirfoddoli gyda ni hefyd yn rhoi sgiliau allweddol a phrofiad i chi y gallwch eu trosglwyddo i'r gweithle, ynghyd â'r tystlythyrau i chi gyrraedd yno yn y lle cyntaf.

Mae'r rolau gwirfoddoli ym Mhlas Newydd (sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar Ynys Môn) yn amrywio o fod yn Geidwad Gwiwerod Coch i ofalu am Gadwraeth Tai; mae llawer o adrannau gwahanol i gael profiad ynddynt yn dibynnu ar eich diddordebau.

At the National Trust there is a rewarding volunteering role to suit everyone as you help one of the largest conservation charities in the UK. Volunteering with us will also give you key skills and experience to take into the workplace, and the references to get you there.

Volunteering roles at Plas Newydd (the National Trust property on Anglesey) range from Red Squirrel Ranger to House Conservation; there are many different departments to gain experience from depending on your interests.

# AGE CYMRU GWYNEDD A MÔN

Rydym yn elusen annibynnol leol sy'n gwasanaethu Gwynedd ac Ynys Môn drwy gefnogi a hybu lles y boblogaeth hŷn leol gan hyrwyddo annibyniaeth pobl a lleddfu unigrwydd ac ynysu cymdeithasol. Mae ein hystod o wasanaethau ataliol yn cynnwys gwasanaethau cymorth cymunedol a darparu cyngor a gwybodaeth. Rydym hefyd yn darparu cyfleoedd cymdeithasu trwy ein caffis, hybiau cymunedol a chlybiau cinio. Rydym yn rhedeg 2 siop elusen (Porthmadog/ Llangefni), uned didoli rhoddion (Caernarfon) a 3 chaffi (Bontnewydd/Caernarfon/ Bangor).

Gallwn ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a gwirfoddoli cyffrous yn lleol i bob oed, sy'n gysylltiedig â'r ystod eang o wasanaethau sydd gennym i'w cynnig.

We are a local independent charity covering Gwynedd and Anglesey that supports and enhances the local older population's wellbeing thus promoting people's independence and alleviating loneliness and isolation. Our range of preventative services included community support services and information and advice provision. We also provide socialising opportunities through our cafes, community hubs and lunch clubs. We run 2 charity shops (Porthmadog/ Llangefni), a donations sorting unit (Caernarfon) and 3 cafes (Bontnewydd/Caernarfon/ Bangor).

We can provide a range of both exciting and fulfilling employment and volunteering opportunities locally to all ages, linked to the wide range of services we have on offer.



# ICAEW

Sefydlwyd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yn 1880 ac felly hwn yw yn un o'r cyrff cyfrifeg hynaf yn y byd, gyda mwy na 161,400 o aelodau a myfyrwyr ar draws 147 o wledydd.

Ydych chi'n meddwl bod cyfrifwyr siartredig yn treulio eu bywydau yn gaeth i'w desgiau? Meddyliwch eto! Mae ein haelodau'n eistedd ar fyrddau cwmnïau amlwladol, yn dystion mewn llysoedd ac yn cynghori llywodraethau, yn cefnogi elusennau, ac yn gweithio ar draws pob diwydiant, yn fyd-eang.

Dyna pam mae galw mawr am ein haelodau ym mhob math o sefydliad, gyda chyflog blynyddol cyfartalog o £51,000 yn y ddwy flynedd gyntaf ar ôl cymhwyso.

Founded in 1880, the Institute of Chartered Accountants of England and Wales is one of the oldest accountancy bodies in the world, with more than 161,400 members and students across 147 countries.

Think Chartered accountants spend their lives confined to their desks? Think again. Our members are sitting on the boards of multinational companies, testifying in court and advising governments, supporting charities, and working across all industries, globally.

That is why our members are in demand from all types of organisations, commanding an average annual salary of £51,000 in the first two years after qualifying.

# YMGYNGHORIAETH GWYNEDD CONSULTANCY

Ymgynghoriaeth Peirianneg Sifil, Amgylcheddol ac Adeiladu yw YGC sydd wedi ei leoli yng Ngwynedd, Gogledd Cymru.

Rydym yn falch o'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig sy'n cynnwys tirfesur, dylunio, rheoli prosiectau a goruchwylio safleoedd i'r sector gyhoeddus a phreifat ar gyfer prosiectau isadeiledd ac adeiladu ar draws gogledd a chanolbarth Cymru.

Mae'r gwasanaethau'n cynnwys Peirianneg Sifil – isadeiledd priffyrdd a geodechnegol, isadeiledd rheoli dŵr a llifogydd, ac isadeiledd amgylcheddol ac ecoleg. Mae ein tîm dylunio adeiladau ac arolygu eiddo hefyd yn cynnig gwasanaeth dylunio pensaernïol a gwasanaethau mecanyddol a thrydanol.

YGC is a Civil Engineering, Environmental and Building Consultancy based in Gwynedd north Wales.

We are proud of the services we offer which include surveying, design, project management and site supervision to the public and private for sector infrastructure and building projects across north and mid Wales.

They include Civil Engineering – highways infrastructure and geotechnical, water and flood management, environmental and ecology.  Our building design and property surveying team also offer architectural design and mechanical and electrical services.



# VICTIM SUPPORT NORTH WALES / GOGLEDD CYMRU

Elusen annibynnol yw Cymorth i Ddioddefwyr sy'n cefnogi unrhyw un yr effeithiwyd arnynt gan droseddu. Nid dim ond dioddefwyr, ond eu ffrindiau, eu teuluoedd ac unrhyw bobl eraill sy'n gysylltiedig.

Mae Canolfan Cymorth Dioddefwyr Gogledd Cymru yn dîm o bobl ofalgar a thosturiol sydd i gyd yma i gefnogi dioddefwyr troseddu.
Rydym wedi ein lleoli yn Llanelwy, Sir Ddinbych ond yn gwasanaethu Gogledd Cymru gyfan.

Nid oes rhaid i'r drosedd fod wedi digwydd yn ddiweddar.

Rydym bob amser yn chwilio am wirfoddolwyr i ddarparu cefnogaeth emosiynol a chefnogaeth ymarferol i ddioddefwyr troseddu a hynny dros y ffôn, ar-lein neu wyneb yn wyneb i'w helpu i wella a symud y tu hwnt i'r troseddu.

Victim Support is an independent charity here to support anyone affected by crime. That's not just victims, but their friends, family and any other people involved.

The North Wales Victim Help Centre is a team of caring and compassionate people who are all here to support victims of crime. We are based in St Asaph, Denbighshire but cover the whole of North Wales.

The crime does not have to have happened recently.

We are always looking for volunteers to provide emotional support and practical support to victims of crime over the telephone, online or face to face to help them recover and move beyond crime.

# HEALTH EDUCATION AND IMPROVEMENT WALES (HEIW)

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi ymrwymo i drawsnewid y gweithlu er mwyn sicrhau Cymru iachach.

Rydym yn chwilio am arweinwyr a all ysgogi rhagoriaeth drwy feddwl yn greadigol ac yn arloesol i wella profiad ac iechyd pobl Cymru. Byddwch yn gallu defnyddio sgiliau dadansoddol cadarn i roi trefn ar syniadaeth a datblygu cynlluniau trwy ddefnyddio gwybodaeth a ffeithiau i ddangos yr achos dros newid. Drwy gydweithio'n agos ac yn gadarnhaol â gweithwyr proffesiynol clinigol ac anghlinigol ar draws gwasanaethau cyhoeddus, byddwch yn ysgogi rhagoriaeth drwy wytnwch a ffocws diwyro i ddylanwadu ar newid, gan drawsnewid a moderneiddio ein gwasanaethau.

Health Education and Improvement Wales (HEIW) is dedicated to transforming the workforce for a healthier Wales.

We are looking for leaders who can drive excellence through creative and innovative thinking to improve the experience and health for the people of Wales. You will be able to employ strong analytical skills to organise thoughts and develop plans by utilising information and facts to evidence the case for change. Through close and positive collaboration with clinical and non-clinical professionals across public services, you will drive excellence through resilience and an unwavering focus to influence change, transforming and modernising our services.

# BANC DATBLYGU CYMRU DEVELOPMENT BANK OF WALES

Cafodd Banc Datblygu Cymru ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi economi Cymru drwy ei gwneud yn haws i fusnesau gael y cyllid sydd ei angen arnynt i ddechrau arni, cryfhau a thyfu.

Rydym yn cynnig buddsoddiadau hyblyg o £1k hyd at £5m. Mae gennym amrywiaeth o rolau cyffrous ar gael ac rydym hefyd yn gyflogwr hyblyg sydd â swyddfeydd ledled Cymru.

The Development Bank of Wales was set up by the Welsh Government to support the economy of Wales by making it easier for businesses to get the finance needed to start up, strengthen and grow.

We offer flexible investments from £1k through to £5m. We've a range of exciting roles available and we're also a flexible employer with offices across Wales.

# ALLINGTON HUGHES LAW

Mae Allington Hughes Law yn gwmni blaenllaw yng Ngogledd Cymru a Chaer sydd yn darparu cyngor proffesiynol, arbenigol a fforddiadwy ar ystod eang o faterion cyfreithiol. Rydym wedi cynnig cyngor y mae pobl wedi ymddiried ynddo ers 1826 ac mae ein Cyfreithwyr a'n harbenigwyr cyfreithiol yn gweithredu ar ran ystod eang o gleientiaid gyda'r bwriad o gynnig gwasanaeth cyfreithiol wedi ei deilwra at anghenion ein cleientiaid.  Ein hethos yn Allington Hughes Law yw trin ein cleientiaid gyda pharch, gwrando, bod yn ddibynadwy a chymryd balchder yn yr hyn a wnawn.

Allington Hughes Law is a leading legal firm in North Wales and Cheshire providing specialist, professional and affordable advice on a broad range of legal issues. Having offered trusted advice since 1826, our solicitors and legal experts act for an extensive range of clients, with the sole purpose of providing them with a tailored legal service. Our ethos at Allington Hughes is to treat our clients with respect, to listen, to be trustworthy and take pride in what we do.



# ANHEDDAU CYF.

Cafodd Anheddau ei sefydlu yn 1989 fel sefydliad elusennol nid-er-elw, sy'n rhoi grym i oedolion ag anghenion cymorth ledled Gogledd Orllewin Cymru. Mae Anheddau yn darparu gwasanaethau gan cynnwys cymorth cymunedol, gwasanaethau dydd, a byw â chymorth, drwy dîm o dros 250 o weithiwr cymorth ymroddedig ac ymrwymedig.

Rydym yn falch o fod yn gyflogwr achrededig Safon Gorfforaethol Aur ar Iechyd diolch i'n ffocws ar sicrhau iechyd a lles yn y gweithle, a'n brwdfrydedd dros greu amgylchedd gwaith bositif, cynhwysol lle mae pawb yn elwa o lefelau rhagorol o hyfforddiant a chefnogaeth.

Established in 1989, Anheddau is a not for profit, charitable organisation which empowers adults with support needs throughout North West Wales. Anheddau provide a range of services including community support, day services and supported living, through a team of over 250 dedicated and committed support workers.

We are proud to be a Gold Corporate Standard on Health accredited employer thanks to our focus on ensuring health and wellbeing in the workplace, and our passion for creating a positive, inclusive working environment where each and every colleague benefits from excellent levels of training and support.

# HWB MENTER ENTERPRISE HUB

Mae'r Hwb Menter, sef partneriaeth rhwng Menter Môn ac M-SParc, yn rhoi gwybodaeth, arweiniad, ysbrydoliaeth a gofod i entrepreneuriaid drawsnewid eu syniad yn fusnes llwyddiannus. Ymhlith y gwasanaethau a gynigir mae swyddfeydd cydweithio, cymuned o unigolion o'r un anian i rannu syniadau a chynnig anogaeth, cyngor busnes, ystod o ddigwyddiadau addysgol / cymdeithasol, Gofod Creu Ffiws yn ogystal â rhaglen cychwyn busnes Miwtini sydd newydd ei rhyddhau. A'r darn gorau yw, mae hyn i gyd heb unrhyw gost i chi fel aelod o'r Hwb am o leiaf 6 mis!

www.hwbmenter.cymru

The Enterprise Hub, a partnership between Menter Mon & M-SParc, provides entrepreneurs with the knowledge, guidance, inspiration and space to transform their idea into a successful business. Services offered include co-working office spaces, a community of like-minded individuals to share ideas and offer encouragement, business advice, a range of educational/social events, Ffiws Makerspace as well as the newly released Miwtini business start-up programme. And the best bit is, all of this is at no cost as a Hub member for at least 6 months!

www.hwbmenter.cymru

# AMGUEDDFA LECHI CYMRU NATIONAL SLATE MUSEUM

Mae Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis yn un o saith amgueddfa genedlaethol sy'n rhan o Amgueddfa Cymru. Mae'r amgueddfa wedi ei lleoli yng ngweithdai Fictoraidd hen chwarel Dinorwig ac yn gyfle i deithio nôl i weld gorffennol diwydiant a ffordd o fyw sy'n rhan bwysig o'n treftadaeth Gymreig. Yn ogystal a'n gwaith cadwraeth a churadol, rydym yn cynnal rhaglen gyhoeddus brysur o weithgareddau addysg, arddangosfeydd a digwyddiadau. Dewch draw am sgwrs i ddysgu mwy am y cyfleoedd gwahanol y gallwn eu cynnig.

The National Slate Museum in Llanberis is one of seven national museums which form Amgueddfa Cymru. The museum is located in the Victorian workshops of the vast Dinorwig quarry and offers an opportunity to travel into the past of an industry and way of life that is an important part of our Welsh heritage. As well as our conservation and curatorial work, we offer a busy public programme of learning activities, exhibitions and events. Come over for a chat to learn more about the different opportunities we can offer.

# CAMPWS BYW BANGOR CAMPUS LIFE

Cymuned ar gyfer holl breswylwyr neuaddau'r brifysgol yw Campws Byw Prifysgol Bangor sy'n cael ei rhedeg gan y Pennaeth Bywyd Preswyl, y Cydlynydd Bywyd Preswyl a'r Criw Campws Byw, sy'n cael eu cefnogi gan y tîm mentoriaid.

Diben y rhaglen Campws Byw yw cael myfyrwyr y gwahanol neuaddau i ymwneud â'i gilydd, gan annog goddefgarwch a dealltwriaeth a meithrin cymuned breswyl glos, a hynny trwy drefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau cynhwysol. Mae gennym ni galendr o ddigwyddiadau i oresgyn rhwystrau i'r rhai nad ydynt yn ymwneud â rhyw fath o gamp chwaraeon, fel y rhan fwyaf o'n preswylwyr yn nodweddiadol.

Bangor University Campus Life events programme is a community run by the Head of Residential Life, Residential Life Coordinator, and Campus Life Crew and supported by the Mentor Team for all residents of University Halls.

The Campus Life programme is committed to supporting interaction between students of all halls, encouraging tolerance and understanding and fostering a close residential community through a calendar of inclusive events. We have a calendar of events to overcome barriers for the non-sporting population, which typically might be most of our residents!

# BIRKDALE COLLECTIVE

Grŵp o weithwyr proffesiynol gyda phrofiad rhyngwladol yn y sector hyfforddi yw'r Birkdale Collective. Cafodd y Birkdale Collective ei sefydlu yn y gobaith o wella'r canfyddiad o gymhelliant gyrfa i fyfyrwyr rhyngwladol ac ers hynny mae wedi mynd o nerth i nerth. Mae'r cymhelliant yr ydym yn ei gynnig ar gael i bobl ar ddiwedd eu gyrfa broffesiynol ym myd y campau ac yn fwyaf diweddar rydym wedi gweithio gyda'r llywodraeth ar y cynllun "Cartrefi i Wcráin". Rydym yn chwilio am weithwyr rhan amser newydd ym maes marchnata a datblygu busnes yn bennaf.

Birkdale Collective are a group of professionals in the coaching sector with international experience. We started Birkdale Collective hoping to improve the perception of career coaching for international students and since this has grown wider. Our coaching is available to sports professionals at the end of their careers and most recently we have worked with the government on the "Homes for Ukraine" scheme. We are looking for new part-time employees in marketing and business development primarily.

PENNANT FLOWER

# PENNANT FLOWER CHARTERED SURVEYORS

Ledled Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr mae Pennant Flower yn darparu ystod o wasanaethau eiddo proffesiynol i fusnesau, perchnogion eiddo a datblygwyr ar draws dau sector gwahanol. Rydym yn gweithio ym meysydd asiantaethau adwerthu, datblygu, ymgynghoriaeth prydlesi a datrys anghydfod. Mae ein harbenigedd yn cynnwys canolfannau siopa, parciau adwerthu, y stryd fawr, datblygu defnydd cymysg a siopa yn y filltir sgwâr. Rydym yn un o'r cwmnïau prin hynny y tu allan i dde Lloegr sy'n gwneud gwaith morol ac rydym yn gwasanaethu ardal Dwyrain Môr Iwerddon yn ei gyfanrwydd ac afonydd a chamlesi'r gefnwlad. Mae enghreifftiau o'n gwaith morol yn cynnwys ymdrin â hawliau gwely'r môr islaw'r Mersey Gateway Bridge a docfâu ar gyfer cychod sy'n gwasanaethu ffermydd gwynt.

Throughout North West England and North Wales Pennant Flower delivers a range of professional property services to businesses, property owners and developers across two distinct sectors. We cover retail agency, development, lease consultancy and dispute resolution. Our expertise covers shopping centres, retail parks, high streets, mixed use development and neighbourhood shopping. We are one of only a very few firms outside of the south coast undertaking marine work and we cover the whole of the Eastern Irish Sea and the rivers and canals of the hinterland. Examples of our marine work include dealing with the sea bed rights under the Mersey Gateway Bridge and berthing for vessels which service wind farms.



bywyd LIFE
GWASANAETH CYNNAL GOFALWYR
CARERS OUTREACH SERVICE

# GWASANAETH CYNNAL GOFALWYR CARERS OUTREACH SERVICE

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr yn elusen gofrestredig sy'n ymroddedig i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i ofalwyr di-dâl 18+ oed yng Nghonwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Gofalwyr yw pobl sy'n gofalu'n ddi-dâl am gymar neu bartner, plentyn, perthynas neu ffrind sy'n sâl, yn anabl neu mewn oed ac yn fregus. Yn aml, nid yw gofalwyr yn cael eu cydnabod er eu bod yn arbed oddeutu £8.1 biliwn y flwyddyn i Lywodraeth Cymru, fyddai'n ddigon i redeg gwasanaeth iechyd arall.

Yn y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr rydym yn credu'n gryf y dylai gofalwyr gael eu clywed, eu gwerthfawrogi a'u parchu am eu cyfranogiad gwerthfawr i'w hanwyliaid a'r gymdeithas.

Carers Outreach Service is a charitable organisation that provides information and support for unpaid carers aged 18+ in Gwynedd, Conwy and Anglesey. Carers are people who provide unpaid care to a spouse or partner, child, relative or friend who is ill, disabled, or elderly and frail. Carers are often overlooked, but the work they do is not only demanding, they also save the Welsh government approximately £8.1 billion pounds a year, which is the equivalent to running a shadow health service.

At Carers Outreach Service we believe that carers should be listened to, valued and respected for their priceless contribution to their loved ones and to society.

AIRBUS

## AIRBUS

Mae Airbus yn arloeswr byd-eang yn y diwydiant awyrofod sy'n gweithredu yn y sectorau awyrennau masnachol, hofrenyddion, amddiffyn a gofod. Heddiw, Airbus yw'r cwmni awyrofod masnachol mwyaf yn y Deyrnas Unedig, yn ogystal â'r allforiwr awyrofod sifil mwyaf ei faint. Caiff y rhan fwyaf o adenydd awyrennau masnachol Airbus eu dylunio a'u hadeiladu ym Mrychdyn, Gogledd Cymru. Ein safle ym Mrychdyn yw'r safle gweithgynhyrchu adenydd mwyaf yn y byd. Airbus hefyd yw cwmni gofod mwyaf y Deyrnas Unedig, mae'n arwain y byd ym maes seiberddiogelwch, ac yn brif gyflenwr awyrennau mawr i'r Awyrlu. Mae Airbus Helicopters yn cyflenwi hofrenyddion i'r sector sifil, y sector amddiffyn a'r ambiwlans awyr yn y Deyrnas Unedig ac yn gyflenwr allweddol i'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Airbus is a global pioneer in the aerospace industry operating in the commercial aircraft, helicopters and defence and space sectors. Today, Airbus is the largest commercial aerospace company in the UK, as well as its biggest civil aerospace exporter. The majority of the wings on Airbus commercial aircraft are designed and built in Broughton, North Wales. Our Broughton site is the biggest wing manufacturing site in the world . Airbus is also the UK's largest space company, a world-leader in cyber security, and the biggest supplier of large aircraft to the RAF. Airbus Helicopters is a major supplier of helicopters to the civil, defence and air ambulance sectors in the UK and is a key supplier to the Ministry of Defence.



Unit 9
Felin Fawr
Bethesda, LL57 4YY
☎ 01248 600 632

## BOOKBANE

Mae Bookbane yn gwmni rhwymo llyfrau sydd â stoc o 25,000 o lyfrau hen a phrin yng Ngweithdai Felin Fawr, sy'n rhan o Llechi Cymru, sy'n safle Treftadaeth y Byd. Nod y cwmni yw diogelu llenyddiaeth bapur cyn 1950, gyda phwyslais arbennig ar Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru, Gwasg Gee a'r Diwygiad.

Mae rhan o'r stoc sydd ar werth bellach yn cael eu cadw fel Llyfrau Cofiadwy a Llyfrgell Chwarelwyr Felin Fawr.

Bookbane is an established bindery & stock of 25,000 old & rare books in Felin Fawr Workshops, part of Llechi Cymru, a World Heritage site. Its aim is to preserve paper-based literature before 1950, with special emphasis on the North Wales Quarrymen's Union, Gwasg Gee & the Welsh Revival.

Part of the for-sale stock is now reserved as Llyfrau Cofiadwy & the Felin Fawr Quarryman's Library.

# QIOPTIQ / EXCELITAS TECHNOLOGIES

Mae Excelitas Technologies yn arweinydd technolegol sy'n darparu arloesi ffotonig perfformiad uchel wedi ei sbarduno gan y farchnad i ddiwallu anghenion technoleg goleuo, optronig, canfod ac optegol cwsmeriaid ledled y byd. Mae Excelitas yn gwasanaethu amrywiaeth eang o gymwysiadau ar draws sectorau moduro, cynhyrchion defnyddwyr, amddiffyn ac awyrofod, diwydiannol, meddygol, diogelwch a diogeledd, a'r gwyddorau ac mae wedi ymrwymo i hyrwyddo llwyddiant ein cwsmeriaid.

Mae ein cyfleuster yn Llanelwy, Sir Ddinbych, yn arbenigo mewn dylunio, datblygu, gweithgynhyrchu a chefnogi modiwlau, systemau a chynhyrchion optronig cymhleth ar gyfer cymwysiadau a marchnadoedd amddiffyn ac awyrofod.

Excelitas Technologies is a technology leader in delivering high-performance, market-driven photonic innovations to meet the lighting, optronic, detection and optical technology needs of customers worldwide. Serving a vast array of applications across automotive, consumer products, defence and aerospace, industrial, medical, safety and security, and sciences sectors, Excelitas stands committed to promoting our customers' success.

Our facility in St. Asaph, Denbighshire, specializes in the design, development, manufacture and support of complex optronic modules, systems and products for defence and aerospace applications and markets.



# BYDDWCH FENTRUS B-ENTERPRISING

Oes gennych chi ddiddordeb mewn dechrau busnes, menter gymdeithasol neu yrfa yn gweithio ar eich liwt eich hun? Dewch i gael sgwrs gyda Byddwch Fentrus, sy'n rhan o Wasanaeth Cyflogadwyedd y Brifysgol, i gael gwybodaeth am y gefnogaeth a'r cyllid sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys mentora un-i-un, lleoliadau hunan-gyflogaeth cyflogedig a lle yn y Man Deori yn M-SParc am ddim.

Rydym hefyd yn cynnig aelodaeth blynyddol i IPSE yn rhad ac am ddim i'r rhai y mae ganddynt ddiddordeb mewn gweithio ar liwt eu hunain.

Interested in starting a business, social enterprise or a freelance career? Come and have a chat with B-Enterprising, part of the University's Employability Service, to find out about the support and funding available. This includes one to one mentoring, funded Self-employment placements and free Incubation space at M-SParc.

We also offer free annual membership to IPSE for students and graduates interested in freelancing.

Gwasanaeth Cyflogadwyedd
Employability Service

# GWASANAETH CYFLOGADWYEDD EMPLOYABILITY SERVICE

Dewch i gwrdd â'r Tîm Cyflogadwyedd ac i gael clywed popeth y gallwn ei wneud i'ch cefnogi. Does dim ots os ydych chi newydd ddechrau eich cwrs neu'n paratoi i raddio - dewch draw am sgwrs gyda'r tîm.

Dewch i gael gwybod am Wobr Cyflogadwyedd Bangor, gweithdai, gweminarau, a sesiynau arweiniad un-i-un. Heb sôn am y Cefnogaeth Profiad Gwaith sydd ar gael i'r rhai sy'n teimlo bod angen rhywfaint o help ac arweiniad ychwanegol arnynt i gael y profiad sydd ei angen arnynt.

Gallwn hefyd ddweud wrthych am y llwyfannau meddalwedd y gallwch eu defnyddio i chwilio am gyfleoedd, gwirio eich CV a pharatoi i lunio ceisiadau am swyddi a pharatoi am gyfweliadau.

Come and meet the Employability Team and hear all about what we can do to support you. It doesn't matter whether you're just beginning your course or getting ready to graduate - come along for a chat with the team.

Find out about the Bangor Employability Award (BEA), workshops, webinars, and one to one guidance sessions. Not to mention the Work Experience Support available to those who feel they need some extra help and guidance to gain the experience they need.

We can also tell you about the software platforms you can access to search for opportunities, check your CV and prepare for job applications and interviews.



Archwilio Cymru
Audit Wales

# ARCHWILIO CYMRU AUDIT WALES

Archwilio Cymru yw corff archwilio annibynnol y sector cyhoeddus yng Nghymru. Ein pwrpas yw rhoi sicrwydd i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth a grymuso ac ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella. Mae'r pwrpas hwnnw wrth wraidd popeth a wnawn, ac rydym yn angerddol am sicrhau bod ein gwaith yn cael effaith wirioneddol ar gymunedau lleol. Mae rhywfaint o'r gwaith yr ydym wedi ei wneud yn genedlaethol wedi edrych ar dlodi tanwydd, COVID-19, digartrefedd a newid hinsawdd. Heb yr unigolion dawnus sy'n gweithio i Archwilio Cymru, ni fyddem yn gallu cael yr effaith hon ac rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw datblygu a hyfforddi ein timau.

Audit Wales is the independent public sector audit body within Wales. Our purpose is to assure the people of Wales that public money is being well spent and to empower and inspire the public sector to improve. Our purpose is at the heart of everything we do, and we're passionate about ensuring our work is having real impact on local communities. Some of our previous national work has looked at fuel poverty, COVID-19, homelessness and climate change. Without the talented individuals that makeup Audit Wales, we would be unable to have this impact and recognise the importance of developing and training our teams.

# EXCELL SUPPLY

Asiantaeth Recriwtio Addysgol yw Excell Supply sy'n frwd dros baru pobl gyda'u swyddi delfrydol. Rydym yn ymfalchïo mewn gwrando ar eich gofynion a dod o hyn i'r ysgolion a'r swyddi mwyaf addas i chi. Mae gennym flynyddoedd o brofiad o weithio gydag ysgolion yn eich ardal, ac o ddefnyddio'r cysylltiadau hynny i helpu i ddod o hyd i rolau sy'n ddelfrydol i'n hymgeiswyr ni. Wrth ymuno ag Excell Supply, mae gennych fynediad at ein Hymgynghorwyr Addysg, sy'n barod i'ch cefnogi trwy'r broses ddethol, o brawf ddarllen a rhoi cyngor i chi gyda'r cais ysgrifenedig i'ch hyfforddi o ran cwestiynau a thechnegau cyfweliad.

Excell Supply are an Education Recruitment Agency that are passionate about partnering people with their ideal jobs. We take pride in listening to your requirements and matching them with the relevant schools and positions. We have years of experience working with schools in your area, and use these relationships to help discover roles that have our candidates in mind. When joining Excell Supply, you have access to our Education Advisors, who are ready to support you through the selection process, from proof reading and advising on your written application to coaching you through interview questions and techniques.



100 YEARS OF OUR BBC

# BBC

Union ganrif ar ôl ei sefydlu mae'r BBC yn dal yma i Drosglwyddo Gwybodaeth, Addysgu a Diddanu. Rydym yn darparu ystod eang o raglenni, cynnwys a gwasanaethau fel rhan o'n gwasanaeth cyhoeddus i gynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig ar deledu, radio ac yn ddigidol.

Felly ydych chi'n barod i lansio'ch gyrfa gyda'r BBC? Os ydych wedi graddio, wedi gadael yr ysgol neu'n chwilio am gyfle i newid eich gyrfa, gallai ein cynlluniau talent newydd droi eich angerdd yn swydd yr ydych yn ei charu boed hynny ym maes Cynhyrchu, Newyddiaduraeth, Busnes, Cyllid, Cyfraith a Thechnoleg.

Dilynwch ein Instagram @BBCGETIN i gael y wybodaeth ddiweddaraf neu ewch i bbc.co.uk/careers/trainee-schemes-and-apprenticeships/

The BBC in its 100th year is still here to Inform, Educate and Entertain. We provide a wide range public service programmes, content and services for audiences across the UK on television, radio and digitally.

So are you ready to launch your career at the BBC? Whether you are a graduate, school leaver or looking for the opportunity to change your career, our new talent schemes could kick start your passion into a job that you love whether in Production Making, Journalism, Business, Finance, Legal and Technology.

Follow our @BBCGETIN Instagram to stay up to date or visit us at bbc.co.uk/careers/trainee-schemes-and-apprenticeships/

CYFREITHWYR SOLICITORS GUTHRIE JONES & JONES

# GUTHRIE JONES & JONES LLP

Cwmni o gyfreithwyr sydd wedi hen ennill eu plwyf yw Guthrie Jones a Jones gyda swyddfeydd yn Nolgellau, Dinbych a'r Bala.
Mae gennym brofiad helaeth o wasanaethu pobl leol yn ein cymunedau ac mae'r partneriaid a'r staff yn ymfalchïo yn yr enw da sydd gennym am ddarparu gwasanaeth proffesiynol i'w cwsmeriaid.

Rydym yn arbenigo mewn Cyfraith Teulu, Plant ac Ysgariad, Anghydfodau a Hawliau Cyfreithiol, Trawsgludo Masnachol a Phreswyl, Cyfraith Tir ac Amaeth a materion Profiant.

Mae gan y staff, ddiddordeb diffuant mewn gwasanaethu eu cymuned oddi mewn ac oddi allan i'w rolau proffesiynol.

Guthrie Jones & Jones are long established solicitors in North Wales with offices in Bala, Dolgellau and Denbigh. We have considerable experience in serving local people and our communities with the partners and staff priding themselves on their long-standing reputation for providing a professional service to their clients.

We specialise in Family, Children and Divorce Law, Legal Disputes and Claims, Commercial and Residential Conveyancing, Land and Agricultural Law and Probate matters.

The staff take a deep interest in serving their community both within and outside their professional roles.



LC

# LINENHALL CHAMBERS

Ers ei sefydlu yn 2011 mae Linenhall Chambers wedi tyfu'n gyson o ran maint ac o ran y meysydd gwaith yr ydym yn ymwneud â nhw. Bellach gyda dros 60 o fargyfreithwyr a staff cefnogi arbenigol a phrofiadol, mae'r siambrau'n cynnig arbenigedd yn y meysydd cyfreithiol canlynol: Erlyn ac Amddiffyn Troseddwyr, Cyfraith Teulu, Cyfraith Eiddo, Cyfraith Fasnachol, Profiant ac Etifeddiaeth, Anaf Personol, Tai, Rheoleiddio, Cyflogaeth a'r Llys Gwarchod. Mae aelodau unigol hefyd yn cynnig arbenigedd mewn nifer o feysydd eraill o'r gyfraith gan gynnwys Cyfraith Addysg, Costau a Mewnfudo. O'n canolfan yng Nghaer, mae Linenhall Chambers yn bennaf yn gwasanaethu cwmnïau cyfreithiol, adrannau cyfreithiol, awdurdodau a chyrff cyhoeddus, busnesau ac unigolion yn Swydd Gaer, Gogledd Orllewin Lloegr, a Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Since its formation in 2011 Linenhall Chambers has consistently grown in size and in the areas of work it undertakes. Now with over 60 barristers and a specialist and experienced support staff chambers offers expertise in the following areas of law: Prosecution and Defence Crime, Family, Property, Commercial, Probate & Inheritance, Personal Injury, Housing, Regulatory, Employment and Court of Protection. Individual members also offer expertise in a number of other areas of law including Education Law, Costs and Immigration. From our base in Chester, Linenhall Chambers primarily serves the law firms, legal departments, public authorities and bodies, businesses and individuals in Cheshire, the North West, North and Mid Wales.

# CCUSA

Arbenigwyr antur byd-eang yw CCUSA sy'n cynnig profiadau gwaith/teithio rhyngwladol fforddiadwy i bobl ifanc sydd am weithio dramor dros yr haf neu am hyd at 5 mlynedd. Gallwch weithio mewn gwersyll haf yn America, Canada, neu Ewrop yn addysgu eich hoff hobi; mynd i Ganada am y tymor sgïo, bod yn intern yn gweithio gydag Eliffantod yng Ngwlad Thai, gwirfoddoli yn y Barriff Mawr neu weithio yn un o'r cyrchfannau pennaf yn yr Unol Daleithiau!

Beth bynnag yw'ch diddordebau neu'ch cyllideb, mae gan CCUSA raglen i chi sy'n darparu antur hwyliog a fydd yn newid eich bywyd ac a fydd ar yr un pryd yn rhoi hwb i'ch CV o ran sgiliau cyflogadwyedd a sgiliau bywyd newydd.

CCUSA are worldwide adventure specialists, offering affordable international work/travel experiences for young people looking to work abroad over the summer or for up to 5 years. You can work at a summer camp in America, Canada, or Europe teaching your favourite hobby; head to Canada for a ski season, intern with Elephants in Thailand, volunteer at the Great Barrier Reef or work at one of the top resorts in the States!

Whatever your interests or budget, CCUSA has a program for you providing a fun life changing adventure whilst at the time boosting your CV with new employability and life skills.



# ENSEMBLE CYMRU

Ensemble Cymru, ensemble preswyl ym Mhrifysgol Bangor a Venue Cymru, Llandudno, yw'r grŵp cerddoriaeth siambr mwyaf blaenllaw sy'n perfformio yng Nghymru.

Mae ein tîm craidd o 16 o gerddorion a chantorion gyda'i gilydd yn cyflwyno cerddoriaeth ragorol, ac yn diddanu, dysgu ac ysbrydoli cynulleidfaoedd, ysgolion, cymunedau, disgyblion a darpar gerddorion. Rydym yn teimlo'n frwd dros gerddoriaeth, treftadaeth gerddorol Cymru a'r cymunedau rydym yn gweithio â nhw ac ar eu cyfer.

Wedi ein sefydlu fel elusen yn 2002, ein nod yw cadw, denu a datblygu talent yng Nghymru i gyd-greu cerddoriaeth ragorol a phrofiadau sy'n uno cymunedau Cymru.

Mwy o wybodaeth
https://ensemble.cymru

Ensemble Cymru, resident ensemble at Bangor University and Venue Cymru, Llandudno, is the leading chamber music group performing in Wales.

Our core team of 16 musicians and singers collectively bring outstanding music, joy, learning and inspiration to audiences, schools, communities, students and aspiring musicians. We're passionate about our music, our Wales' musical heritage and the communities we work with and for.

Established as a charity in 2002, we aim to retain, attract and develop talent in Wales to co-create outstanding music and experiences that bring Welsh communities together.

More information
https://ensemble.cymru

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

# HEDDLU GOGLEDD CYMRU NORTH WALES POLICE

Mae gogledd Cymru yn ardal o harddwch, amrywiaeth, diwylliant mawr. Fel heddlu, rydym yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi a diogelu pob rhan o'r gymuned. Mae gennym ystod enfawr o gyfleoedd staff mewn lifrai neu staff yr heddlu ar draws yr Heddlu, fel y gallwch ddilyn gyrfa gyffrous beth bynnag fo'ch maes dewisol. P'un a ydych yn cynorthwyo gydag ymchwiliadau neu brosesu cyflogres, mae gan bawb ran i'w chwarae. O ddadansoddwyr cudd-wybodaeth, i swyddogion y wasg, i ymchwilwyr lleoliadau trosedd - mae gan bawb rôl allweddol yn y broses o wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel.

Rydym yn cynnig rolau amser llawn neu ran-amser. Gallwch ddod o hyd i'n swyddi gwag presennol yma: policejobswales.tal.net

North Wales is an area of great beauty, diversity, culture. As a police force, we play an important role in supporting and protecting all sections of the community. We have a huge range of uniformed or police staff opportunities across the Force, so you can pursue an exciting career whatever your chosen field. Whether you assist with investigations or process payroll, everyone has a part to play. From intelligence analysts, to press officers, to crime scene investigators - everyone plays a key role in making North Wales a safer place.

We offer full-time or part-time roles. You can find our Current Vacancies here: policejobswales.tal.net



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gogledd Orllewin
North West

# DYSGU CYMRAEG GOGLEDD ORLLEWIN (DCGO)

Mae Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin (DCGO), Prifysgol Bangor yn gyfrifol am ddysgu Cymraeg i oedolion ar draws Gwynedd, Môn a Chonwy ar ran Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Rydym yn darparu dros 200 o gyrsiau o'r safon uchaf, a hynny ar-lein a wyneb-yn-wyneb. Gyda thros 50 mlynedd o brofiad yn y maes, mae darpariaeth DCGO yn mynd o nerth i nerth wrth i ni gefnogi mwy a mwy o siaradwyr newydd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Dysgu Cymraeg North West (DCGO), Bangor University is responsible for teaching Welsh to adults across Gwynedd, Anglesey and Conwy on behalf of The National Center for Welsh Learning.

We provide over 200 courses of the highest quality, both online and face-to-face. With over 50 years of experience in the field, DCGO's provision is going from strength to strength as we support more and more new speakers to use the Welsh language.

# CABAN BANGOR

Mae CaBan yn bartneriaeth rhwng Prifysgol Bangor, ysgolion, y Consortiwm Rhanbarthol GwE a'r sefydliad ymchwil CIEREI. Gyda'n gilydd rydym yn rhannu'r nod cyffredin o addysgu'r genhedlaeth nesaf o addysgwyr o'r radd flaenaf, o addysg gychwynnol athrawon ac ymlaen trwy ddysgu proffesiynol parhaus ar hyd eu gyrfa.

Mae newidiadau cyffrous yn digwydd yn y byd addysg yng Nghymru ar hyn o bryd a bydd angen athrawon rhagorol er mwyn gwireddu'r newidiadau hynny. Dyma eich cyfle i ddilyn gyrfa werth chweil, a bod yn rhan o gyfnod y mae disgwyl iddo fod yn un pwysig yn hanes addysg.

CaBan is a partnership between schools, Bangor University, the Regional Consortium GwE and the research institute CIEREI. Together we share the common goal of educating the next generation of world-class educators, from initial teacher education, through continuous career long professional learning.

The educational landscape in Wales is going through exciting changes and excellent teachers are required to bring these to fruition. This is your opportunity to join this rewarding career, and be part of what is anticipated to be a significant period in educational history.

# SUPERTEMPS

Supertemps yw prif asiantaeth recriwtio Gogledd Cymru gyda swyddfeydd ym Mangor a Bae Colwyn. Rydym yn llenwi'r swyddi parhaol a dros dro canlynol gyda chyflogwyr lleol blaenllaw:

· Cyfrifeg a Chyllid
· Gweinyddiaeth a Swyddfa
· Adnoddau Dynol
· Gwerthu a Marchnata
· Gyrru a Logisteg
· Ailgylchu a Rheoli Gwastraff
· Arlwyo a lletygarwch
· Gweithgynhyrchu a Thechnegol
· Warws a Dosbarthu

Mae ein his-adran Recriwtio S2 yn canolbwyntio ar rolau TG, Peirianneg a Gweithredol

Ar gyfer swyddi gwag cyfredol ewch i:

supertemps.co.uk
s2recruitment.co.uk
01248 671477

Supertemps is North Wales' leading recruitment agency with offices in Bangor and Colwyn Bay. We are filling the following permanent and temporary positions with leading local employers:

· Accounting and Finance
· Administration and Office
· Human resources
· Sales and Marketing
· Driving and Logistics
· Recycling and Waste Management
· Catering and hospitality
· Manufacturing and Technical
· Warehousing and Distribution

Our S2 Recruitment division focuses on IT, Engineering and Operational roles.

For current vacancies visit:

supertemps.co.uk
s2recruitment.co.uk
01248 671477

## GAMING LABORATORIES INTERNATIONAL

Gaming Laboratories International (GLI®) sy'n darparu'r gwasanaethau profi ac ardystio mwyaf blaenllaw yn y diwydiant gemau fideo. Ac rydym yn gwneud cymaint mwy na dim ond profi, gan fod gennym ystod heb ei ail o wasanaethau ac offer ar gyfer rheoleiddwyr, cyflenwyr a gweithredwyr. Rydym yn gwneud gwaith Profi Ardystio, sy'n darparu profi annibynnol ac arolygu cynhyrchion gemau fideo electronig, Gwasanaethau Proffesiynol, mentrau Chwarae Gemau Fideo yn Gyfrifol a llawer o wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r diwydiant gemau fideo. Rydym yn gweithio gyda Rheoleiddwyr, Cyflenwyr a Gweithredwyr i ddarparu gwasanaeth byd-eang. Mae gennym swyddfeydd ym Mangor ac rydym yn canolbwyntio ar recriwtio'n lleol, datblygu ein gweithwyr a'u hannog i symud ymlaen yn eu rolau.

Gaming Laboratories International (GLI®) provides the gaming industry's leading testing and certification services. And we are so much more than just testing, with an unsurpassed range of services and tools for regulators, suppliers and operators. We carry out Testing Certification, which provides independent testing and inspection of electronic gaming products, Professional Services, Responsible Gaming initiatives and many other services related to the gaming industry. We work with Regulators, Suppliers and Operators providing a global service. We have offices in Bangor and focus on recruiting locally, developing our employees and encouraging them to progress in their roles.

## ZIP WORLD

Cwmni antur arobryn yw Zip World sy'n cynnig anturiaethau unigryw a bythgofiadwy i'r teulu cyfan. Dechreuodd ein taith yn ôl yn 2013 yn Zip World Chwarel y Penrhyn, pan lansiwyd gwifren wib gyflymaf y byd, Velocity.

Heddiw, mae gan Zip World nifer o safleoedd poblogaidd ledled Cymru; Zip World Chwarel y Penrhyn, Llechwedd a Fforest yn y gogledd ac yn fwy diweddar, Zip World Tower i lawr y de, i enwi dim ond rhai. O wifrau gwib arobryn, cledrau alpaidd, certi mynydd a rhwydi tanddaearol, mae Zip World yn arbenigwyr mewn darparu profiadau penigamp ac anturiaethau gwefreiddiol.

Zip World is an award-winning adventure company in Wales, offering unique and unforgettable adventures for all the family. Our journey started back in 2013 at Zip World Penrhyn Quarry, with the launch of the world's fastest zip line, Velocity.

Today, Zip World have multiple popular sites across the country; Zip World Penrhyn Quarry, Llechwedd and Fforest in North Wales and more recently, Zip World Tower down South, to name a few. From record-breaking zip lines, alpine coasters, mountain karts and underground nets, Zip World are experts in providing world-class experiences when it comes to the world of exhilarating adventures.

# M-SPARC

M-SParc, wedi'i leoli yng Ngaerwen ar Ynys Môn, yw cartref arloesi yng Nghymru. Yn eiddo i Brifysgol Bangor, mae'r adeilad unigryw hwn yn gartref i dros 50 o gwmniau ym meysydd gwyddoniaeth a thechnoleg. Rydym yn cynnal digwyddiadau amrywiol drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys ein cyfres 'Egni', 'Digidol' a Creadigol.

Rydym hefyd wedi cymryd ein gofod greu #ArYLon ac mae gennym 2 leoliad, un ym Mae Colwyn ac un reit yng nghanol Bangor! Yn y gorffennol, rydym wedi cynnig prentisiaethau gradd, profiad gwaith, ac academi sgiliau lle roeddem yn cyflogi dros 40 o bobl! Dewch i ddarganfod mwy!

M-SParc, located in Gaerwen on Anglesey, is the home of innovation in Wales. Owned by Bangor University, this unique building houses over 50 tenant companies in the fields of science and technology. We run various events throughout the year including our 'Egni', 'Digidol' and Creative series.

We have also taken our knowledge and maker space #OnTour and have 2 locations on in Colwyn Bay and one right in the heart of Bangor! In the past, we have offered degree apprenticeships, work experience, and a skills academy where we employed over 40 people! Come and find out more!

# 2 SISTERS FOOD GROUP

Rydym yn un o lwyddiannau mwyaf cymhellol busnes Prydain yn yr 20 mlynedd diwethaf. Mae mwy na 15,000 o gydweithwyr o 36 o genhedloedd yn helpu i wneud amrywiaeth syfrdanol o rai o'r bwydydd gorau ym Mhrydain - O ddofednod i pizza i basteiod, o brydau parod i ddewis o gawl.

Mae gennym bresenoldeb cryf yn y DU mewn categorïau bwyd dofednod, oer a becws, yn ogystal â ffefryn brand gyda phastai Holland. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddarparu cynnyrch o'r ansawdd uchaf i'r cyhoedd ym Mhrydain ac i'n cwsmeriaid manwerthu a gwasanaethau bwyd. Mae ein cwsmeriaid yn cynnwys Aldi, Asda, Co-op, KFC, Lidl, Marks & Spencer, Morrison's, Sainsbury's, Tesco a Waitrose.

We are one of British business's most compelling success stories of the past 20 years. More than 15,000 colleagues drawn from 36 nationalities help to make a mind-boggling array of some of the finest food in Britain - from poultry to pizza to pies, from ready meals to ranges of soup.

We have a strong UK presence in poultry, chilled and bakery food categories, as well as a brand favourite with Holland's pies. We are also committed to delivering the highest quality products to the British public and to our retail and food service customers. Our customers include Aldi, Asda, Co-op, KFC, Lidl, Marks & Spencer, Morrison's, Sainsbury's, Tesco and Waitrose.

Gwasanaeth Erlyn y Goron
Crown Prosecution Service

# GWASANAETH ERLYN Y GORON CROWN PROSECUTION SERVICE

Mae'r CPS yn erlyn achosion troseddol yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn annibynnol, yn gwneud ein penderfyniadau yn annibynnol ar yr heddlu a'r llywodraeth.

Ein dyletswydd yw sicrhau bod y person cywir yn cael ei erlyn am y drosedd gywir, a dod â throseddwyr o flaen eu gwell lle bynnag y bo modd.

Mae'r CPS yn penderfynu pa achosion y dylid eu herlyn, yn pennu'r cyhuddiadau priodol mewn achosion mwy difrifol neu gymhleth, ac yn cynghori'r heddlu yn ystod camau cynnar ymchwiliadau. Yna byddwn yn paratoi achosion ac yn eu cyflwyno yn y llys, gan ddarparu gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth i ddioddefwyr a thystion yr erlyniad.

The CPS prosecutes criminal cases in England and Wales. We are independent, making our decisions independently of police and government.

Our duty is to make sure that the right person is prosecuted for the right offence, and to bring offenders to justice wherever possible.

The CPS decides which cases should be prosecuted, determines the appropriate charges in more serious or complex cases, and advises the police during the early stages of investigations. We then prepare cases and present them at court, providing information, assistance and support to victims and prosecution witnesses.



CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# CYNGOR GWYNEDD GWYNEDD COUNCIL

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithio'n galed i sicrhau bod gennym y gweithwyr gorau posib. Ein nod yw denu unigolion dawnus a thalentog er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau i gyfarch anghenion pobl Gwynedd. Mae hyn yn golygu bod angen i ni fuddsoddi, cefnogi a grymuso ein gweithwyr i fyw ein gweledigaeth a'n ffordd ni o weithio a'u galluogi i fod yn rhan annatod o siapio dyfodol Cyngor Gwynedd.

Mae Cynllun Yfory, sef Cynllun Graddedigion Cyngor Gwynedd, yn cynnig cyfleoedd a phrofiadau cyffrous i chi er mwyn datblygu eich sgiliau a'ch paratoi am yrfa llwyddiannus yng Nghyngor Gwynedd.

Gwynedd Council is working hard to ensure that we have the best possible employees. Our aim is to attract the most skilful and talented individuals to provide the best service to address the needs of the people of Gwynedd. This means that we need to invest in, support and empower our workers to live our vision and our way of working and enable them to become an integral part of shaping the future of Gwynedd Council.

Cynllun Yfory, Gwynedd Council's Graduate Scheme, offers exciting opportunities and experiences so that you can develop your skills in preparation for a successful career at Gwynedd Council.

# CYNOGR AR BOPETH YNYS MÔN
# CITIZENS ADVICE ANGLESEY

Rydym yn darparu cyngor cyfrinachol a diduedd am ddim ar faterion fel budd-daliadau, dyled, cyflogaeth, tai, a mwy. Ein nod yw helpu pawb i ddod o hyd i ffordd ymlaen, pa bynnag broblem y maent yn ei hwynebu.

Mae ein Clinig y Gyfraith yn cynnig i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain y cymorth sydd ei angen arnynt mewn materion cyfreithiol gofal teulu a chymunedol, pan na allant fforddio cynrychiolaeth gyfreithiol ac nad ydynt yn gymwys ar gyfer Cymorth Cyfreithiol. Rydym yn defnyddio ymchwil a data i ddeall pa broblemau y mae pobl yn eu hwynebu ac yn ymgyrchu ar faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl. Rydym yn gwneud argymhellion i'r llywodraeth, rheoleiddwyr a chwmnïau ynghylch sut y gallent ddatrys achosion sylfaenol y problemau hyn.

We provide free, confidential and impartial advice on issues such as benefits, debt, employment, housing, and more. Our goal is to help everyone find a way forward, whatever problem they face.

Our Law Clinic offers litigants in person the support they need in family and community care legal issues, when they cannot afford legal representation and are ineligible for Legal Aid. We use research and data to understand what problems people are facing and campaign on issues affecting people's lives. We make recommendations to the government, regulators and companies about how they could fix the underlying causes of these problems.

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

BANGOR.AC.UK